**NEMO – CYFLE SYMUDEDD GOGLEDD EWROP (2026)**

**Canllaw i Ymgeiswyr**
**Dyddiad cau: 11.59 pm (amser CET), 18.09.2026**

Tabl cynnwys


**1. Gwybodaeth am NEMO** ..... 2

1.1 Beth yw NEMO? ..... 2

1.2 Amcanion NEMO ..... 2

1.3 I bwy mae NEMO? ..... 2

1.3.1. Y meini prawf i fod yn gymwys ..... 3

1.3.2. Pwy sydd ddim yn cael gwneud cais? ..... 4

1.4. Ar beth y gallwch chi wario eich grant NEMO ..... 5

1.4.1. Ar beth na chewch chi wario'ch grant NEMO ..... 5

1.4.2. Faint allwch chi wneud cais amdano ..... 5

**2. Cyn i chi wneud cais am NEMO** ..... 6

2.1. Amserlen NEMO 2026 a dyddiadau pwysig ..... 6

2.2. Y broses ymgeisio a deunyddiau gorfodol ..... 6

2.3 Hygyrchedd a Chynhwysiant – Costau Hygyrchedd Personol ..... 7

**3. Ar ôl i chi wneud cais am NEMO** ..... 8

3.1 Y broses benderfynu ..... 8

3.2 Meini Prawf Asesu ..... 8

3.3 Beth fydd yn digwydd nesaf yn achos ymgeiswyr llwyddiannus? ..... 9

3.4. Beth os oes gen i gwestiwn? ..... 10

## 1. Gwybodaeth am NEMO

### 1.1 Beth yw NEMO?

Mae Cyfle Symudedd Gogledd Ewrop (NEMO), a lansiwyd yn 2025, yn rhaglen ar gyfer symudedd a chyfnewid artistig. Mae'n cael ei chefnogi gan Gronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig (Nordic Culture Fund) a'r asiantaethau sy'n ariannu'r celfyddydau yng Nghymru, Iwerddon, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

A hwythau'n gymdogion agos, mae'r gwledydd Nordig, y Deyrnas Unedig ac Iwerddon yn rhannu gofod rhyngwladol lle ceir tir ffrwythlon ar gyfer cydweithio creadigol. Serch hynny, mae sawl datblygiad yn y blynyddoedd diwethaf wedi cyfrannu at wneud cydweithio artistig yn rhyngwladol drwy'r rhanbarth yn fwy anodd, gan gynnwys mwy o densiynau geo-wleidyddol, ansicrwydd economaidd cynyddol, a'r ffaith bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar artistiaid ac ymarferwyr celfyddydol unigol sydd yng nghamau cynnar eu gyrfaoedd. Mae hynny'n adlewyrchu cydnabyddiaeth ymhlith y partneriaid bod y grŵp hwn yn benodol angen rhagor o gyfleoedd a chefnogaeth yn yr hinsawdd sydd ohoni.

### 1.2 Amcanion NEMO

Mae'r rhaglen yn datblygu ar ddyhead dwyochrog i roi mwy o bosibiliadau creadigol i ymarferwyr drwy'r holl sîn ddiwylliannol yng ngogledd Ewrop. Mae'n gwneud hynny drwy ddarparu cefnogaeth ariannol i artistiaid tuag at fentrau cydweithredol ymarferol a fydd o fudd i artistiaid sy'n cymryd rhan a'r cymunedau celfyddydol ehangach mewn gwledydd partner.

Blaenoriaethau cyffredin y rhaglen hon yw:

- Annog mwy o artistiaid ac ymarferwyr celfyddydol yn eu camau cynnar i weithio'n hyderus gyda phartneriaid rhyngwladol.
- Meithrin cydweithio rhyngwladol.
- Datblygu rhwydweithiau artistig newydd drwy ranbarth gogledd Ewrop, a'u cryfhau.
- Ymrwymo i hygyrchedd a chynhwysiant ar gyfer cymunedau a lleisiau amrywiol yn y rhanbarth.

### 1.3 I bwy mae NEMO?

I fod yn gymwys i wneud cais am y rhaglen hon,
- Rhaid i chi fod yn artist unigol neu'n ymarferydd celfyddydol sy'n preswylio yn un o'r canlynol:

    - Un o'r gwledydd Nordig
    - Un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig
    - Gweriniaeth Iwerddon.

- Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar artistiaid ac ymarferwyr celfyddydol sydd yng **nghamau cynnar** eu gyrfaoedd artistig.

*DROP-DOWN BOX - Beth yw '**camau cynnar**'?*

- Mae'r alwad hon ar gyfer cydweithio trawsranbarthol. Mae hyn yn golygu os ydych chi wedi'ch lleoli yn y Deyrnas Unedig neu Weriniaeth Iwerddon, rhaid i'ch cais gynnwys manylion sut y byddwch chi'n datblygu cywaith â phartner yn y Gwledydd Nordig. I'r gwrthwyneb, os ydych chi wedi'ch lleoli yn y gwledydd Nordig, rhaid i'ch cais gynnwys manylion sut y byddwch chi'n datblygu cywaith â phartner yn y Deyrnas Unedig neu Weriniaeth Iwerddon.

*DROP-DOWN BOX - Beth yw '**cydweithio trawsranbarthol**'?*

-Rhaid i bob parti sy'n rhan o'r cais fod wedi cytuno'n glir ar gwmpas y bartneriaeth cyn cyflwyno'r cais.

-Dim ond i ymgeiswyr na chawsant gymorth o dan NEMO yn 2025 y mae'r rhaglen hon ar agor.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar agor i bawb. Yn benodol, rydyn ni'n croesawu ceisiadau sy'n adlewyrchu holl amrywiaeth yr hunaniaethau a'r cymunedau a geir yn yr holl wledydd partner.

### 1.3.1. Y meini prawf i fod yn gymwys

Dyma'r meini prawf er mwyn bod yn gymwys i wneud cais.

- Rhaid i chi fod yn artist unigol neu'n ymarferydd celfyddydol yn ei gamau cynnar sy'n preswylio yn un o'r canlynol:
  **Un o'r gwledydd Nordig:**
    - Denmarc,
    - Ynysoedd Ffaro,
    - Y Ffindir,
    - Yr Ynys Las,
    - Gwlad yr Iâ,
    - Norwy,
    - Sweden, neu
    - Ynysoedd Åland
- **Gweriniaeth Iwerddon**
- **Y Deyrnas Unedig:**

- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Lloegr

- Rhaid i'ch partner cydweithredol (artist (artistiaid), ymarferydd (ymarferwyr) celfyddydol, neu sefydliad) fod wedi'i leoli mewn rhanbarth cyferbyniol i'r un lle rydych chi wedi'ch lleoli: dim ond er mwyn gweithio gyda phartner sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig neu Weriniaeth Iwerddon y gall artistiaid sy'n byw mewn gwlad Nordig wneud cais, ac i'r gwrthwyneb.
- Rhaid eich bod yn gwneud cais am bartneriaeth neu gywaith newydd, a rhaid eich bod wedi cysylltu â'r unigolyn neu'r sefydliad yr hoffech weithio gydag ef.  Rhaid i chi ddarparu llythyr neu e-bost gyda chytundeb/cefnogaeth i brofi hyn.
- Rhaid i chi gael cefndir a hanes llwyddiannus o weithio fel artist neu ymarferydd celfyddydol, a gallu darparu CV sy'n dangos hyn.
- Ni chewch fod yn rhan o fwy nag **un** cais i'r gronfa hon.
- Rhaid i chi gael cyfrif banc yn y wlad rydych chi'n preswylio ynddi.
- Rhaid i chi gwblhau eich cywaith o fewn blwyddyn i gael grant.

### 1.3.2. Pwy sydd ddim yn cael gwneud cais?

Ni fyddwn yn gallu derbyn eich ceisiadau os oes unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- Wedi cael cymorth gan NEMO yn 2025.
- Rydych chi'n unigolyn sydd eisiau gweithio gyda phartner sydd heb ei leoli yn rhanbarth gogledd Ewrop, a heb ei leoli mewn rhanbarth 'cyferbyniol' i'r un lle rydych chi wedi'ch lleoli
- Rydych chi'n sefydliad - *serch hynny, gellir cynnwys sefydliadau fel partner mewn mentrau arfaethedig.*
- Rydych chi'n rhan o gydweithfa artistiaid sy'n cynnwys artistiaid unigol niferus neu'n artist sy'n gwneud cais ar ran y gydweithfa.
- Rydych chi'n fyfyriwr sydd mewn addysg amser llawn (israddedig, ôl-raddedig neu astudiaethau Doethuriaeth).
- Rydych chi'n chwilio am gefnogaeth tuag at waith rydych chi'n ei wneud fel rhan o interniaeth neu waith gwirfoddol.
- Rydych chi'n chwilio am arian i fynd ar gyfnod preswyl artistig.
- Rydych chi'n unigolyn sy'n ceisio ariannu astudiaethau neu ddefnyddio'r gronfa i dalu am gyrsiau proffesiynol.
- Rydych chi'n unigolyn sy'n chwilio am gyllid ar gyfer prosiectau ffilm.
- Rydych chi'n unigolyn sy'n awyddus i deithio neu arddangos gwaith presennol dramor.

### 1.4. Ar beth y gallwch chi wario eich grant NEMO

Gall ceisiadau fod ar gyfer gweithgarwch wyneb yn wyneb, digidol neu hybrid wrth ymateb i amcanion y rhaglen.  Rydyn ni'n disgwyl i geisiadau ganolbwyntio ar gamau cynnar partneriaeth a chywaith newydd. Er enghraifft, gall costau sy'n gymwys yn unol â'r alwad gynnwys y canlynol, er nad ydyn nhw'n gyfyngedig iddyn nhw:

- Ffioedd artistiaid (i chi'ch hun a'ch partneriaid, gan gynnwys partneriaid eraill sy'n cymryd rhan)
- Cyfnewid gwybodaeth feirniadol ac ymchwil
- Mentora e.e. cyfnewid dulliau gweithio, traddodiadau, a phrosesau.
- Meithrin capasiti e.e. cryfhau sgiliau, adnoddau, strwythurau
- Creu / dylunio peilot ar raddfa fechan er mwyn cydweithio yn y dyfodol
- Ymwneud â'r cyhoedd, fel digwyddiadau i gyfrannu atyn nhw, sgyrsiau, dosbarthiadau, ac ati.
- Costau teithio a llety i ddatblygu partneriaeth.

Dydyn ni ddim yn gofyn am unrhyw gynnyrch artistig perfformiadol o'ch grant. Os ydych chi'n dymuno, gallwch wario rhywfaint o'ch cyllideb ar waith ymchwil a datblygu sy'n paratoi at gynnal gweithgarwch o'r fath maes o law.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau am weithgarwch mewn partneriaeth sy'n ystyried effaith amgylcheddol y cynlluniau dan sylw.

#### 1.4.1. Ar beth na chewch chi wario'ch grant NEMO

Chewch chi ddim gwneud cais am y canlynol:

- Gwariant cyfalaf – fel prynu offer
- Cymryd rhan mewn cyfnodau preswyl dramor
- Talu am gyrsiau proffesiynol
- Gweithgarwch sy'n dechrau cyn i chi gael grant
- Costau y mae ffynonellau cyllid eraill eisoes yn talu amdanyn nhw
- Mynd â'ch gwaith ar daith
- Gweithgarwch sy'n creu elw

#### 1.4.2. Faint allwch chi wneud cais amdano

Y swm uchaf y gallwn ei ddyfarnu i bob cais llwyddiannus yw **DKK 75,000 (tua EUR 10,000)**

Bydd cyfanswm y cyllid fydd ar gael ar gyfer y rownd hon tua DKK 2,500,000 (sef tua EUR 345,000, yn dibynnu ar y gyfradd gyfnewid). Mae hyn yn golygu y bydd nifer o geisiadau da yn dod i law na fyddwn yn gallu rhoi cyllid iddyn nhw.

Rydyn ni'n disgwyl rhoi tua 30 o ddyfarniadau gwerth hyd at DKK 75,000 (tua EUR 10,000) yr un. Bydd y grantiau'n cael eu rhoi mewn Kroner Denmarc (yr arian sy'n cael ei ddefnyddio gan Gronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig, a fydd yn gweinyddu'r grant).

## 2. Cyn i chi wneud cais am NEMO

### 2.1. Amserlen NEMO 2026 a dyddiadau pwysig

**Mehefin 2026:** Cyhoeddi Canllawiau NEMO 2026
**25 Mehefin 2026**: Gweminar Arts InfoPoint UK am NEMO 2026
**17 Awst 2026:** Porth ymgeisio NEMO yn agor
**18 Medi 2026** (24.00 CET): Porth ymgeisio NEMO yn cau
**Medi - Hydref 2026**: Cyfnod asesu
**Tachwedd 2026:** Panel Penderfynu
**Canol Tachwedd 2026:** Cyhoeddiadau NEMO 2026
**Dyddiad dechrau'r prosiect:** dim cyn diwedd Tachwedd 2026
**Dyddiad gorffen y prosiect:** Diwedd Tachwedd 2027.

### 2.2. Y broses ymgeisio a deunyddiau gorfodol

Gallwch gyflwyno eich cais drwy borth ymgeisio Cronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig. Dim ond drwy'r porth ar-lein y bydd ceisiadau'n cael eu derbyn. Does dim modd derbyn ceisiadau ar bapur.

Pan fydd y rhaglen yn agor ar gyfer ceisiadau, bydd ffurflen gais ar-lein ar gael yn y porth ymgeisio ar-lein. Rhaid i chi ei chyflwyno cyn y dyddiad cau, ynghyd â'r canlynol:

- eich CV
- llythyr/e-bost gwahoddiad gan y partner rydych chi wedi'i ddewis.

Bydd y ffurflen gais yn gofyn cwestiynau byr am y canlynol:

- Chi'ch hun a'ch ymarfer, gan gynnwys sut rydych chi'n ystyried eich hun yng nghamau cynnar eich gyrfa artistig.
- Pam eich bod wedi dewis eich partner a sut bydd y partner yn cyfrannu at y cydweithio rhyngoch chi.
- Beth rydych chi'n gobeithio'i gyflawni os cewch chi grant.
- Beth fyddai'r effaith ar eich ymarfer o ddydd i ddydd.
- Y potensial ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol a buddiannau rhanbarthol ehangach.

Bydd y ffurflen hefyd yn gofyn i chi gyflwyno amserlen ar gyfer y prif weithgareddau a manylion sylfaenol y gyllideb. Yn eich cyllideb dylech restru unrhyw gostau rydych chi'n bwriadu eu talu ar gyfer:

- ffioedd am amser artistiaid ac amser eich partner(iaid)
- Teithio
- Fisâu (lle bo'n briodol)
- Llety
- Cynhaliaeth/per diem
- Costau cydweithio digidol
- Llogi stiwdio/lleoliad
- Yswiriant
- (Marchnata)
- Cyfieithu / dehongli

Bydd y grantiau'n cael eu talu mewn Kroner Denmarc, felly byddwn yn gofyn i chi gyflwyno eich cyllideb mewn DKK. Bydd cyfradd gyfnewid yn cael ei phennu cyn i'r porth agor. Bydd y ffurflen gais yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i chi allu trosi o'ch arian cyfred eich hun.

### 2.3 Hygyrchedd a Chynhwysiant – Costau Hygyrchedd Personol

Rydyn ni eisiau gwneud y broses o wneud cais i'r rhaglen hon yn hygyrch i bawb.
Os bydd angen cymorth hygyrchedd personol arnoch chi i gwblhau eich cais, gallwn ddarparu deunyddiau mewn fformatau hygyrch fel dogfennau PDF wedi'u fformatio, testun plaen neu sain. Os bydd angen fformat gwahanol arnoch chi, cysylltwch â Chronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig ar kulturfonden@norden.org.

Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud ein cynlluniau ariannu a'r gwaith rydyn ni'n ei ariannu yn hygyrch i bawb. I gyrraedd y nod hwn, rydyn ni'n cynnig cefnogaeth ariannol ar gyfer Costau Hygyrchedd Personol i gael gwared ar rwystrau i artistiaid a chyfranogwyr ag anableddau.

*DROP-DOWN BOX: Beth yw Costau Hygyrchedd Personol?*

Mae enghreifftiau o gymorth hygyrchedd personol yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddyn nhw:

- Dehonglydd iaith arwyddion ar gyfer cyfranogwr neu gyfranogwyr
- Gwasanaethau gweithiwr cymorth hygyrchedd
- Trefniadau teithio arbennig.

Gall costau hygyrchedd personol fod yn ychwanegol at gyllideb eich gweithgarwch. Mae hyn yn golygu, pan fyddwch chi'n ystyried y costau hyn, y gall eich cais am gyllid fod yn uwch na'r trothwy o DKK 75,000 (tua EUR 10,000) ar gyfer y cais.

Ddylai costau hygyrchedd ychwanegol ddim bod yn fwy na DKK 10,000. Mae hyn yn golygu y gall uchafswm y cais am gyllid, gan gynnwys Costau Hygyrchedd Personol, fod hyd at DKK 85,000.

Cysylltwch â Chronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig (kulturfonden@norden.org), os bydd angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y costau hyn.

## 3. Ar ôl i chi wneud cais am NEMO

### 3.1 Y broses benderfynu

1. Bydd yr holl geisiadau'n dod i law Cronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig ar-lein, a byddan nhw'n cael eu harchwilio i gychwyn i sicrhau eu bod nhw'n gymwys.
2. Os byddwn yn cael mwy o geisiadau na'r disgwyl, mae gennyn ni'r hawl i gyflwyno cam sifftio ychwanegol.
3. Bydd staff o'r asiantaethau celfyddydol sy'n bartneriaid i ni, ynghyd ag arbenigwyr o Gronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig, yn defnyddio proses asesu ffurfiol i ddewis hyd at 60 o geisiadau sy'n cael eu hystyried fel rhai cryfion o dan feini prawf y rhaglen.
4. Bydd y ceisiadau hyn wedyn yn cael eu rhoi gerbron panel penderfynu ac arno aelodau o'r holl sefydliadau partner.
5. Bydd y panel penderfynu'n ystyried portffolio cytbwys o ymgeiswyr, gan ystyried
    a. cynrychiolaeth yr ymgeiswyr o blith holl hunaniaethau a chymunedau amrywiol y gwledydd partner
    b. cydbwysedd o ffurfiau celfyddydol a daearyddiaeth.
6. Bydd cynrychiolwyr o'r holl asiantaethau partner yn cytuno ar y canlyniadau ariannu terfynol.
7. Bydd y canlyniadau'n cael eu hanfon drwy borth ymgeisio Cronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig.

### 3.2 Meini Prawf Asesu

Rydyn ni'n asesu ceisiadau yn erbyn y meini prawf canlynol:

**MAEN PRAWF 1 – Yr arwyddocâd i artistiaid ac ymarferwyr celfyddydol ym mlynyddoedd cychwynnol eu gyrfa**

- A yw'r rhaglen yn ymateb i'ch anghenion neu'ch heriau penodol o ran y cyfnod hwn yn eich gyrfa ar hyn o bryd?
- A yw'r cydweithio o fudd i chi fel artist unigol ac ymarferydd celfyddydol ym mlynyddoedd cychwynnol eich gyrfa artistig, ac a oes angen cymorth a chyfleoedd arnoch chi yn yr hinsawdd sydd ohoni?

**MAEN PRAWF 2 – Strwythur y prosiect – eglurder y gweithgarwch, yr amserlen a'r gyllideb**

- A yw'r swm y gwneir cais amdano a manylion y costau yn rhesymol ar gyfer y gweithgarwch sy'n cael ei wneud?

- A yw'r amserlen yn ymddangos yn ymarferol?
- A yw hi'n amlwg beth sy'n cael ei wneud, pa bryd a gyda phwy? A yw'r gweithgareddau a ddisgrifir yn debygol o gael yr effaith neu'r canlyniadau a ddymunir?

**MAEN PRAWF 3 – Y bartneriaeth – ansawdd yr ymwneud dwyochrog**

- A yw'r cais yn dangos sut mae hwn yn ddull newydd neu wahanol o gydweithio yn rhyngwladol yn y gwledydd Nordig, y Deyrnas Unedig, a Gweriniaeth Iwerddon?
- A oes rhesymeg dros ddewis y partneriaid (eu sgiliau, eu hymarfer, eu profiad) ac a fydd natur y bartneriaeth yn helpu i gyflawni beth mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni?
- A yw'r bartneriaeth yn un gyd-fuddiannol? A fydd yr holl bartneriaid yn cael budd o'r gweithgarwch?
- A oes posibiliadau diddorol ar gyfer sut y gallai'r berthynas rhwng y partneriaid ddatblygu?

**MAEN PRAWF 4 – Y potensial ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol a buddiannau rhanbarthol ehangach**

- A yw'r cynnig yn amlinellu effaith bosibl y gweithgarwch ar bob un o'r partneriaid? Gallai hyn gynnwys:
    - ymarferion artistig
    - cyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol
    - mwy o broffil rhyngwladol
    - cyrraedd marchnadoedd a chynulleidfaoedd newydd.
- A yw'r cais yn cyfrannu at roi mwy o bosibiliadau i ymarferwyr drwy'r holl sîn ddiwylliannol yng ngogledd Ewrop?
- A oes cynlluniau i rannu'r dysgu a'r profiadau â'r sector creadigol ehangach?

Oherwydd nifer y ceisiadau rydyn ni'n debygol o'u cael, a chapasiti cyfyngedig ein panel, dim ond adborth cyfyngedig y byddwn yn gallu'i roi i ymgeiswyr aflwyddiannus. Dydyn ni ddim yn gallu rhoi adborth penodol am geisiadau aflwyddiannus i'r rhaglen hon, ac ni fydd proses apelio.

## 3.3 Beth fydd yn digwydd nesaf yn achos ymgeiswyr llwyddiannus?

Os byddwch chi'n llwyddiannus, bydd Cronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig yn cysylltu â chi i roi gwybod eich bod yn cael cynnig dyfarniad. Mae hefyd yn anfon cytundeb grant atoch chi.

Pan ddaw'r prosiect i ben, bydd gofyn i chi ysgrifennu adroddiad am ganlyniad eich partneriaeth. Mae'n rhaid i chi ysgrifennu'r adroddiad hwn yn unol â chanllawiau Cronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig ar gyfer yr adroddiadau a'r cyfrifon terfynol.

### 3.4. Beth os oes gen i gwestiwn?

Os oes gennych gwestiwn, gallwch ddarllen adran Cwestiynau Cyffredin ein gwefan.

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â Chronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig ar kulturfonden@norden.org.

**Materion technegol**
Os cewch chi unrhyw broblemau technegol o ran cofrestru neu wneud cais drwy borth ar-lein NEMO, cysylltwch â Chronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig ar kulturfonden@norden.org.

Gallwch anfon cwestiynau cyffredinol at arweinwyr rhaglen NEMO yn y wlad rydych chi'n preswylio ynddi:

**Arts Council England**
Nicola Smyth – Uwch Reolwr Rhyngwladol
Nicola.smyth@artscouncil.org.uk

**Arts Council Ireland**
Davide Terlingo – Pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol
international@artscouncil.ie

**Arts Council Northern Ireland**
Siobhan Molloy – Swyddog Datblygu'r Celfyddydau (Lleoliadau, Gwyliau a Rhyngwladol)
smolloy@artscouncil-ni.org

**Cyngor Celfyddydau Cymru**
Zélie Flach – Uwch Swyddog Ewropeaidd
info@wai.org.uk

**Creative Scotland**
Kate Deans – Swyddog Rhyngwladol
kate.deans@creativescotland.com

**Cronfa Diwylliant y Gwledydd Nordig (Nordic Culture Fund)**
Henriette Sørensen – Cynghorwr a chyswllt NEMO
Hensoe@norden.org